

GORCHYMYN ADSEFYDLU IEUENCTID

BETH YW'R GORCHYMYN HWN?

Adroddiad y gofynnwyd amdano gan y Llys i roi rhagor o wybodaeth iddynt i'w helpu i benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi i chi. Bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn ysgrifennu'r adroddiad.

BETH DDIGWYDDODD I MI YN Y LLYS HEDDIW?

GORCHYMYN ADSEFYDLU
IEUENCTID AM _____ MIS

GOFYNION:

COSTAU: _____

IAWNDAL _____

OS YDYCH YN CAEL
TRAFFERTH Â THALU DIRWYON
Y LLYS, CYSYLLTWCH Â: 01633
645 112

Pwy ydy'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (GCI) ?

Gwasanaeth sy'n cefnogi pobl ifanc
i leihau'r risg o droseddu yw'r

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (GCI). Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol ac ieuchyd.

BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

Bydd Swyddog GCI yn cysylltu â chi o fewn y 24-48 awr nesaf i drefnu i ymweld â chi i gwblhau asesiad.

Bydd yr asesiad yn gweithio gyda chi, eich rhieni ac asiantaethau eraill (ysgol, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol) i edrych ar eich ymddygiad troseddol a phethau sy'n digwydd yn eich bywyd i nodi ffyrdd y gall y GCI ac eraill helpu.

Yn dilyn hynny, bydd gofyn i chi lunio a chytuno ar gynllun gyda'r GCI, rhieni ac asiantaethau eraill i'ch helpu i fynd i'r afael â'ch ymddygiad troseddol a datblygu eich uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

BETH SYDD I'W DDISGWYL GENNYF?

Disgwylir i chi fynychu pob un o'ch apwyntiadau gyda'r GCI a chyfrannu at y sesiynau hyn. Cadw mewn cysylltiad gyda'r GCI. Dylech hefyd roi gwybod i ni os bydd unrhyw beth yn newid yn eich bywyd, a gallwch hefyd siarad â ni am unrhyw beth sy'n eich poeni.

BETH SYDD I'W DDISGWYL GAN FY RHieni / GOFALWYR?

Cefnogi eich plentyn i fynychu pob apwyntiad a mynychu unrhyw asesiadau.

Cadw mewn cysylltiad gyda'r GCI.

Dylech hefyd roi gwybod i ni os bydd unrhyw beth yn newid yn eich bywyd, a gallwch hefyd siarad â ni am unrhyw beth sy'n eich poeni.

BLE FYDD FY APWYNTIADAU'N CAEL EU CYNNAL?

Mae'n bosibl y byddant yn cael eu cynnal yn eich cartref, yn yr ysgol neu yn y gymuned. Ond fel arfer, caiff hyn ei drafod a'i gytuno gyda chi a'ch rhieni neu ofalwyr.

**BETH SY’N DIGWYDD OS NAD
YDW I’N GALLU MYNYCHU FY
APWYNTIADAU?**

Cysylltwch â’r CGI ar unwaith ar 01352 701125. Os byddwch yn methu apwyntiad, mae’n bosibl y byddwch yn derbyn rhybudd ac yn dychwelyd i’r Llys.

**BETH DDYLWN EI WNEUD OS
OES ARNAF ANGEN RHAGOR O
GYNGOR NEU WYBODAETH?**

Cysylltwch â’r Swyddog Dyletswydd GCI ar 01352 701125.
<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Flintshire-Integrated-Youth-Provision/Youth-Justice-Service-Information.aspx>

DIFFYG CYDYMFFURFIAETH

Mae’r CGI yn atebol i’r llys o ran sicrhau fod y gorchymyn llys yn cael ei gwblhau. Mae disgwyl i’r unigolyn ifanc fynychu pob apwyntiad a dilyn y rheolau

ymddygiad yn ystod yr apwyntiadau.

Gallai methiant i wneud hyn, heb reswm derbyniol, olygu y bydd yn rhaid dychwelyd i’r llys am ‘dorri’ rheolau’r gorchymyn. Os bydd yn rhaid i’r unigolyn ddychwelyd i’r llys am dorri rheolau’r gorchymyn, mae’n bosibl y bydd y llys yn penderfynu dirymu (canslo) y gorchymyn ac ail-ddedfrydu’r unigolyn ifanc.

SUT I WNEUD CWYN

Siaradwch â’r Swyddog GCI neu ffoniwch 01352 701125

Opsiwn arall fyddai ysgrifennu at, neu ffonio:

Y Rheolwr Gweithrediadau

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint

Neuadd y Sir,

Raikes Lane,

Yr Wyddgrug,

Sir y Fflint

CH7 6ND

☐: (01352) 701125



**GWASANAETH
CYFIAWNDER
IEUENCTID**

SIR Y FFLINT

**Gwybodaeth am y
Gorchymyn
Adsefydlu Ieuenctid
i Blant a Phobl Ifanc**